

Nodyn ar Gadw Pellter Diogel – diweddariad 3 Mehefin 2020

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau i helpu busnesau i ailagor.

Mae angen ystyried 5 pwynt.

1. Iechyd y gweithlu
2. Profi ac Orlhain
3. Ailgychwyn
4. Cadw pellter corfforol
5. Asesu Risg (DS sy'n ofynnol i fenywod bechiog beth bynnag yw maint y busnes)

Mae crynodeb o'r pwyntiau allweddol i fusnesau yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/diogelu-cymru-yn-y-gwaith-gwybodaeth-allweddol_0.pdf

Mae fideo yn egluro'r mesurau mae un cwmni gweithgynhyrchu wedi'u rhoi ar waith yma:

https://www.youtube.com/watch?v=BVuVxhme_nY&feature=youtu.be

Canllawiau Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/diogelu-cymru-yn-y-gwaith>

Cymryd pob cam rhesymol i gynnal pellter corfforol yn y gweithle

Mae rheolau newydd wedi dod i rym yng Nghymru mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol a chadw pellter yn y gweithle. Mae'r rheolau yn gorfodi busnesau sy'n dal i weithredu i sicrhau eu bod yn cymryd camau rhesymol i gadw pellter o 2 fetr rhwng y bobl sydd ar y safle. Mae'n ofynnol i fusnesau gymryd camau cymesur y gellir eu cyfiawnhau.

Cyhoeddwyd y ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, a daeth i rym ar 07042020. Y prif ddiben yw atal Covid-19 rhag lledaenu.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'w gweld yma <https://llyw.cymru/cymryd-pob-cam-rhesymol-i-gynnal-pellter-corfforol-yn-y-gweithle?>

Mae ein crynodeb fel a ganlyn, gydag enghreifftiau o'r ffordd mae busnesau cymdeithasol wedi addasu.

Busnesau yr effeithiwyd arnynt


Mae'r ddeddfwriaeth newydd hon yn effeithio ar fusnesau sy'n dal i weithredu. Gall hyn gynnwys busnesau cymdeithasaol yn y lleoliadau canlynol: gwasanaethau hanfodol i'r cyhoedd, ffatrioedd fel y rhai sy'n cynhyrchu bwyd, safleoedd adeiladu, cymdeithasau tai, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant i weithwyr critigol, a phlant sy'n agored i niwed mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant, a llochesau cam-drin domestig.

Busnes Cymdeithasol Cymru

Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



Pwy sy'n gyfrifol?

Y person sy'n gyfrifol am y safle sy'n gyfrifol am fusnesau i'r cyheodd sy'n dal ar agor, fel canolfannau cymunedol. Ar gyfer busnesau eraill, yr unigolyn yng ngofal y busnes sy'n gyfrifol amdano, h.y. mewn ffatri gynhyrchu, mae hyn yn golygu'r rheolwr, nid perchennog y safle. Mae'r canllawiau hefyd yn cyfeirio at gyfrifoldeb personol pawb i atal trosglwyddo'r feirws.

Gweithredu

Bwriedir i'r pellter corfforol o 2 fetr ategu amrywiaeth o gamau eraill a gaiff eu cymryd i leihau risg i'r eithaf. Dylai'r rhain gynnwys:

- hunanynysu pan yn dangos symptomau
- gweithio gartref lle y bo'n ymarferol
- codi rhwystrau rhwng pobl lle y bo'n addas
- gwisgo cyfarpar diogelu personol lle y bo canllawiau'n nodi ei fod yn angenrheidiol

Camau rhesymol

Bydd angen i fusnesau gyfiawnhau pa gamau a gymerwyd i gydymffurfio a pha mor rhesymol ydynt. Ceiswch fapio'r prosesau ar gyfer darparu eich gwasanaeth a thynnu sylw at y pwyntiau risg. Dogfennwch y rhain mewn asesiad risg fel bod gennych gofnod o'r penderfyniadau a wnaed. Rhowch gamau lliniaru ymarferol ar waith i leihau risg i'r eithaf.

Mae lleoliad gofal plant wedi dogfennu ei risgiau mewn asesiad risg, gweler isod.

Ystyriaethau

Mae'r canllawiau yn esbonio y gall busnesau ystyried y canlynol:

- Cost
- natur y gwasanaeth
- iechyd a diogelwch
- adborth gan staff – gallai gofyn i'r staff am awgrymiadau fod yn fan cychwyn

Er enghraifft, efallai na fydd yn rhesymol i fusnes ddechrau fflyd newydd o lorïau, ond efallai y bydd rhesymol dechrau sifftiau ar adegau gwahanol.

Mesurau rhesymol

Dyma ychydig o awgrymiadau yn y canllawiau y gallai eich busnes eu hystyried:

- Lleihau nifer y bobl mewn ardal ar unrhyw adeg benodol
- Lleihau gorgrynhai – darparu lle ychwanegol a threfnu seibiannau, sifftiau ar adegau gwahanol
- Creu mwy o le – rhwng y staff neu'r cwsmeriaid, er enghraifft gadael bylchau 2m rhwng pobl a nodi'r bylchau drwy eu marcio
- Lleihau cyswllt – newid y tasgau a gyflawnir – gwneud addasiadau i'r




Busnes Cymdeithasol Cymru

Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



ffordd y caiff gwaith ei wneud

Yn ôl y canllawiau, byddai cludo teithiwr yng nghefn tacsï, yn hytrach nag yn y sedd flaen, yn fesur rhesymol.

Mae siop gymunedol wedi symud seddi'r caffï allan i wneud lle, ac wedi marcio pellterau o 2 fetr i'w cadw rhwng y cwsmerïaid, a gosod arwyddion. Hefyd, mae gan y siop system ar gyfer lleihau cyswllt wrth y til.

Eithriadau

Nid oes unrhyw eithriadau cyffredinol, ond efallai y bydd achosion lle bo gofyn am gyfyngiadau corfforol neu gyswllt agos i ddarparu'r gwasanaeth. Er enghraifft, efallai y bydd angen bwydo plant gweithwyr allweddol â photel wrth ofalu amdanynt. Bydd yn bwysig rhestru mesurau eraill a gymerwyd.

Geithwyr gofal neu weithwyr meddygol

- Gall staff aros 2 fetr oddi wrth ei gilydd a'r claf neu'r cleient am beth amser neu'r rhan fwyaf o'r amser
- Gall cleientiaid/cleifion aros 2 fetr oddi wrth ei gilydd
- Dylai'r staff sy'n gwneud gwaith cyswllt agos â cheient i roi triniaeth barhau i ddarparu'r gwasanaeth.

Eithriadau eraill posibl

- Darparu gwasanaethau personol, gan gynnwys yn y cartref
- Tasgau sy'n gofyn am ddau unigolyn neu fwy i ymgymryd â hwy yn ddiogel, gan gynnwys codi llwythau trwm, er y gellid mabwysiadu mesurau
- Lleoliadau addysg a gofal plant
- Eithriadau lle bo angen cyswllt agos rhwng gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau, er y gall fod mesurau yn y gweithle ehangach i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i'r eithaf.
- Lle bo gofyn i weithwyr deithio gyda'i gilydd
- Gweithio mewn lleoedd cyfyngedig, er enghraifft, trwsio seilwaith ar gyfer cyfleustodau

Gwaith cyswllt agos

Lle bo gofyn am gyswllt agos, fel yn yr enghreifftiau uchod, bydd yn rhaid ystyried mesurau eraill:

- lleihau'r lefelau rhyngweithio – lleihau'r amser
- rhwystrau ffisegol, e.e. sgriniau, cyfarpar diogelu personol, lle y cânt eu hargymell
- hylendid gwell a negeseuon atgoffa am bwysigrwydd hylendid
- golchi dwylo'n dda am 20 eiliad gyda sebon ar ôl cyswllt agos
- sicrhau nad yw'r rhai hynny sy'n dangos symptomau yn bresennol ar y

saflle




Busnes Cymdeithasol Cymru

Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising




Gweithgaredd a all gynnwys cysylltiad agos	Risg	Mesur i weithredu pellter o 2 fetr (cam lliniaru).	A yw'r mesur yn rhesymol ac yn ymarferol?	Mesurau eraill (camau lliniaru)	Cytunwyd gan	Gweithredwyd	I'w adolygu
Plant mewn lleoliad	Trosglwyddo'r feirws	Gostwng y niferoedd fel bod mwy o le	Ydy – niferoedd is	-Diheintio'r holl deganau -Posterï a gwybodaeth i'r staff am hylendid ychwanegol	Y Bwrdd	070420	160420
Rhieni'n gollwng eu plant	Trosglwyddo'r feirws	Gofyn i'r rhieni beidio â dod i mewn i'r safle	Ydy – ond mae angen ychydig o gyswllt o hyd	-Arddangos posterï -Diheintio ar ôl cyswllt	Rheolwr Gyfarwyddwr	070420	160420
Gofal personol iawn e.e. newid cewynnau, bwydo	Trosglwyddo'r feirws	Angen cyswllt agos o hyd	-	Dilyn gweithdrefnau ar ofal personol iawn e.e. ffedogau untro Defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol	-	Parhaus	6 mis

Enghreifftiau o weithredu

Dyma rai mesurau y mae busnesau cymdeithasol wedi'u cymryd pan fo gofyn am waith cyswllt agos o hyd.

a) Lleoliad gofal plant – cynnal asesiad risg parhaus er mwyn addasu i'r sefyllfa.



b) Elusen cam-drin domestig

Mae elusen cam-drin domestig wedi cymryd y camau canlynol, ar ôl ymgynghori â chynghorwyr arbenigol a chydweithwyr yn y diwydiant a chynnal asesiad risg. Mae'r elusen wedi rhoi gwybod i aelodau ei bwrdd a'i chyllidwyr.

- Lleihau cyswllt – drwy roi rota ar waith i'r staff sy'n dod i mewn i'r safle
- Lleihau cyswllt – lle y bo cyswllt o hyd, e.e. mewn llety a rennir, lleihau neu oedi atgyfeiriadau newydd i'r lloches neu'r llety symud ymlaen er mwyn darparu mwy o le. Awgrymu rota ar gyfer defnyddio ardaloedd a rhennir.
- Mesurau diogelu – darparu cyfarpar glanhau priodol a hylif diheintio.
- Dileu cyswllt – cynnig cymorth ar-lein i gleientiaid newydd

Gorfodi

Mae gan yr heddlu ac awdurdodau lleol y pŵer i orfodi dirwyon (cosb benodedig o £60 a fydd yn dyblu ar gyfer troseddau pellach) a/neu gyhuddo o drosedd.

Adolygu

Mae'r ddeddfwriaeth bellach wedi'i gorfodi ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei hadolygu erbyn 16 Ebrill sy'n rhoi'r cyfle i randdeiliaid ymgysylltu nawr.

Canllawiau Sectorau Penodol

Yr Awdurdod Safonau Bwyd

<https://www.gov.uk/government/publications/covid-guidance-for-food-businesses>

Mae Arloesi Bwyd Cymru wedi sefydlu llinell gymorth ac wedi cyhoeddi nodiadau arfer da <http://foodinnovation.wales/llinell-gymorth-arloesi-bwyd-cymru/>

Tai

Mae gan gylchgrawn Inside Housing ddolenni i ganllawiau ac arfer cyfredol ledled y DU

<https://www.insidehousing.co.uk/news/government-sets-out-social-distancing-rules-for-repairs-and-construction-workers-during-pandemic-66024>

Y Sefydliad Tai Siartredig

